CYNGOR CYMUNED LLANELLTYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU
COFNODION GORFFENNAF 9, 2019

Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanelltyd, Taicynhaeaf a Bontddu a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Llanelltyd
Nos Fawrth, Gorffennaf 9, 2019 am 7.30 o'r gloch.

Presennol: Cynghorwyr: Simon Evans (Cadeirydd), Geraint Rowlands, Llinos Williams Gareth Ellis, Carwyn Evans. Hefyd Peredur Jenkins a Henry M. Edwards.

1. Ymddiheuriadau: Elfed ap Gomer.

2. Datgan diddordeb:

Roedd Gareth Ellis yn datgan diddordeb ynglŷn ag Eitem 8.b. (Cais Cynllunio).

3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Mehefin 11, 2019

Cynigwyd ac eilwyd fod y cofnodion yn gywir.

4. Materion yn codi o'r cofnodion Mehefin 11, 2019

Eitem 5.a. Anfonwyd y dogfennau i BDO ar 14/6/2019.

5. Materion Ariannol

a. Derbyniwyd (19/6/2019) £100 oddi wrth I.B. Williams a'i Fab Cyf. at osod beddfaen ar y diweddar Mary Elizabeth Dillon.

b. Balans yn y banc ar 29 Mehefin 2019: £9,328.22.

7. Mynwent Llanelltyd

8. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Llythyr (18/6/2019) yn rhoi gwybod am Ddiwrnod Agored prosiect Coedwigoedd Glaw Celtaidd Cymru ar ddydd Iau, Medi 5 am 10.30 – 2.30yp, yn Neuadd Bentref Ganllwyd ac yn cynnwys taith gerdded ar Ystad Dolmelynllyn. Os am fod yn bresennol maent angen gwybod cyn Mehefin 28.

b. Cais cynllunio NP5/65/275A. Diwygio Amod 3 o Ganiatâd Cynllunio NP5/65/PIAW275(i) dyddiedig 26/09/2008 i ganiatau newidiadau i ddyluniad y tŷ. Tir yn Cae Gwernog, Llanelltyd.

Penderfynwyd cefnogi'r cais. Nid oedd Gareth Ellis yn bresennol yn y trafodaethau.

c. Llythyr (18/6/2019) yn rhoi gwybod maent yn cynnal cyfarfodydd blynyddol gyda Chynghorau Tref a Chymuned. Mae cyfarfod yn Plas Tan y Bwlch, Maentwrog ar Hydref 1, 2019 am 6.30yh i 8.30yh. Prif ffocws rhaglen y noson bydd gwaith y Gwasanaeth Wardeinio. Bydd fwy o wybodaeth ymhellach ymlaen.

9. Gohebiaeth

a. Llythyr (10/6/2019) oddi wrth Rheolwr Stadau, Cyngor Gwynedd gyda gwybodaeth gofynwyd at ddyfodol Toiledau Cyhoeddus Bontddu. Mae'r wybodaeth yn cynnwys adroddiad ar gyflwr y toiledau a'r brydles.

Anfonwyd y wybodaeth ymlaen i'r aelodau
Penderfynwyd trafod y mater yn ein cyfarfod nesaf.

b. Llythyr ateb (13/6/2019), i Eitem 11.b. Cofnodion Mai 14, 2019, oddi wrth Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod:

i. bydd Arolygwr Priffyrdd yn asesu diogelwch canghennau coed sy'n tyfu dros y ffordd rhwng Pont Llwyntryfer a Pont Cwm Mynach ac ymdrin fel bo angen.

ii. mae'r twll sydd ar yr ochr chwith o'r ffordd i hen bont Llanelltyd, ac sydd wrth y gyffordd i Lanfachreth, wedi ei lenwi. Mae cyffordd Llanfachreth ar y rhaglen waith i dderbyn clytwaith (patching).

c. Llythyr (27/6/2019) oddi wrth Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd gwaith clirio coeden ac atgyweirio ffens ar lwybr Pont Figra.

ch. Llythyr (1/7/2019) oddi wrth fyfyriwr o Brifysgol Lerpwl. Amgáu mae holiadur angen gwybodaeth gan gynghorwyr ar ail gartrefi yn y sir.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r cynghorwyr.
Penderfynwyd i Simon Evans cwblhau'r holiadur ar ran yr aelodau.

10. Adroddiad Cyng. Peredur Jenkins

Nid oedd adroddiad.

11. Materion Brys

a. Cafodd Archwilydd Mewnol anhawster cael holl wybodaeth Cyngor Cymuned Brithdir a Llanfachreth ar y wefan. Oherwydd hyn awgrymodd Elfed ap Gomer, ein harbenigwr ar y wefan, i gynnwys cyfeiriad y wefan ar eu Hagenda a Chofnodion i hwyluso cael y wybodaeth. Awgrymwn wneud yr un fath i gyngor ni.

Penderfynwyd rhoi ein cyfeiriad wefan ar Agenda a Chofnodion.
b. Penderfynwyd cael pris gan Anderson Tree Specialists Ltd a Gwasanaeth Tir a Choed i glirio coed, rhododendron a phlanhigion tebyg ar dir triongl rhwng terfyn Afallon a'r ffordd fawr. Penderfynwyd hefyd i'r ddau gwmni cysylltu â Carwyn Evans i gael gwybod y gwaith sydd angen ei wneud. (Gweler Cofnodion Ebrill 9, 2019 Eitem 10.c.).